**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (FFYRDD YMADAEL AC YMUNO TUA'R DWYRAIN WRTH GYFFORDD TRAVELLERS REST, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2022**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain cefnffordd yr A40, neu gerllaw iddynt, wrth Gyffordd Travellers Rest yn Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain cefnffordd yr A40 wrth Gyffordd Travellers Rest.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain sy'n dymuno ymadael wrth Gyffordd Travellers Rest fydd aros ar gerbytffordd tua'r dwyrain yr A40 at Gylchfan Pont Lesneven ac yna dychwelyd ar gerbytffordd tua'r gorllewin yr A40 i ymadael â'r A40 ar y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd Travellers Rest.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain sy'n dymuno ymuno â'r A40 wrth Gyffordd Travellers Rest fydd mynd tua'r dwyrain ar hyd y B4312 Heol Llysonnen, Hen Heol Sanclêr, Rhiw'r Gofeb, Teras Picton, tua'r de ar Lôn Morfa ac yna tua'r gorllewin ar yr A4242 i ymuno â'r A40 wrth Gylchfan Pont Lesneven.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol dros nos o 20:00 o'r gloch ar 20 Mehefin 2022 hyd 06:00 o'r gloch ar 21 Mehefin 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**THE A40 TRUNK ROAD (EASTBOUND EXIT AND ENTRY SLIP ROADS AT TRAVELLERS REST JUNCTION, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2022**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the eastbound entry and exit slips of the A40 trunk road at Travellers Rest Junction in the County of Carmarthenshire.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles, other than vehicles being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the lengths of the eastbound exit and entry slip roads of the A40 trunk road at Travellers Rest Junction.

The alternative route for eastbound vehicles wishing to exit at Travellers Rest Junction will be to remain on the A40 eastbound carriageway to Pont Lesneven Roundabout and then return on the A40 westbound carriageway to leave the A40 on the westbound exit slip road at Travellers Rest Junction.

The alternative route for eastbound vehicles wishing to join the A40 at Travellers Rest Junction will be east along the B4312 Llysonnen Road, Old St Clears Road, Monument Hill, Picton Terrace, south on Morfa Lane and then west on the A4242 to join the A40 at Pont Lesneven Roundabout.

It is expected that the prohibition, which will be signed accordingly, will operate overnight from 20:00 hours on 20 June 2022 until 06:00 hours on 21 June 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**J SADDLER**
Transport
**Welsh Government**